

# BWRDD GWEITHREDOL

DYDD LLUN, 6ED IONAWR, 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**

C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins and J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorwyr: D.M. Cundy, R. James, K. Lloyd and J.G. Prosser

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

W. Walters	-	Prif Weithredwr
C. Moore	-	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan	-	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
G. Morgans	-	Cyfarwyddwr Addysg & Phlant
L. Rees Jones	-	Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
D. Hockenull	-	Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata
M. Evans Thomas	-	Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin : 10.00 yb - 10.25 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd L.M. Stephens.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR 16 RHAGFYR 2019**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** Iofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2019, gan eu bod yn gywir.

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2020/21 I 2022/23**

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar y Strategaeth Cyllideb Refeniw ar gyfer 2020/21 a'r ddwy flynedd ariannol ganlynol. Roedd yr adroddiad yn darparu manylion y broses gyllidebu, setliad amodol cyfredol Llywodraeth Cymru ac amserlen y setliad terfynol. Roedd yr adroddiad

hefyd yn nodi'r pwysau o ran dilysu a'r gyllideb y mae angen i'r Aelodau eu hystyried wrth bennu cyllideb refeniw y flwyddyn nesaf. Byddai'r adroddiad yn sail i'r broses ymgynghori ar y gyllideb a fyddai'n cael ei chynnal yn ystod Ionawr a Chwefror 2020.

Nododd yr adroddiad fod Sir Gaerfyrddin wedi cael cynnydd o 4.4% yng ngrant Llywodraeth Cymru (£11.5m) gan fynd â'n Cyllid Allanol Cyfun i £274.159m ar gyfer 2020/21. Roedd y cynnydd hwn yn dilyn rhai trosglwyddiadau i'r cyllid ar gyfer Pensiynau a Chyflogau Athrawon, a oedd yn cael eu hariannu'n rhannol yn unig o fewn y setliad ac yn cyfrif am tua £5.7m o'r cynnydd cyffredinol mewn cyllid.

Er bod llawer o waith eisoes wedi'i wneud wrth baratoi'r gyllideb, nodwyd mai dim ond datganiad sefyllfa cychwynnol oedd yr adroddiad hwn a fyddai'n cael ei ddiweddarau dros y misoedd i ddod wrth i'r gyllideb gael ei datblygu ymhellach, ymgysylltu ag aelodau'r cyngor, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus a derbyn y setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi a bod strategaeth y gyllideb 2020/21 hyd 2022/23 yn cael ei chymeradwyo fel sylfaen i ymgynghori, a bod ymgais benodol yn cael ei gwneud i gael sylwadau gan ymgynghoreion ynghylch y cynigion effeithlonrwydd y manylwyd arnynt yn Atodiad A i'r adroddiad.**

## 7. UNRHYW FATER ARALL

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau brys i'w hystyried.

---

CADEIRYDD

---

DYDDIAD